

## OEDFAON A DIGWYDDIADAU'R FRO DROS YR HAF AC I DDOD YM MIS MEDI

<b>DYDD SUL, AWST 6<sup>FED</sup></b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynhelir Cyfarfod Gweddi yng Nghapel Bethania, Llansannan am 10.00.</li> <li>Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yn <b>Llanefydd</b> am 10.00.</li> </ul>
<b>DYDD GWENER, AWST 11<sup>EG</sup></b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y cryno ddisg 'Nesáu at Dduw' a'r llyfryn defosiynol 'Cymorth gan Iesu' a baratowyd gan Adran Chwiorydd EBC yn cael ei lansio ym Mhabell yr Eglwys yn Eisteddfod Genedlaethol Môn am 1.00. Croeso i'r holl chwiorydd i'r lansiad.</li> </ul>
<b>DYDD SUL, AWST 13<sup>EG</sup></b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y Parch. Ddr Andras Iago yn arwain oedfa yn <b>Llansannan</b> am 10.00, yn <b>Saron</b> am 2.00, ac yn <b>Henllan</b> am 6.00.</li> <li>Bydd y Parch. Meirion Morris yn arwain oedfa yng <b>Nghefn Berain</b> am 2.00 ac yng <b>Nghefn Meiriadog</b> am 6.00.</li> </ul>
<b>DYDD SUL, AWST 20<sup>AIN</sup></b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd Mr Gwilym Tudur yn arwain oedfa yn <b>Llansannan</b> am 10.00 ac yng <b>Nghefn Meiriadog</b> am 2.00.</li> <li>Bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa yn <b>Llanefydd</b> am 2.00.</li> </ul>
<b>DYDD SUL, AWST 27<sup>AIN</sup></b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y Parch. Gareth Edwards yn arwain oedfa yn <b>Llansannan</b> am 10.00, yn <b>Saron</b> am 2.00 ac yn <b>Henllan</b> am 6.00.</li> <li>Bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa yng <b>Nghefn Meiriadog</b> am 10.30 ac yng <b>Nghefn Berain</b> am 2.00.</li> </ul>
<b>NOS FERCHER, AWST 30<sup>AIN</sup></b>	<ul style="list-style-type: none"> <li><b>Taith Gerdded i'r Ofalaeth</b> – yn ardal Henllan. Cyfarfod ym muarth Capel Henllan am 6.30. Os na fydd y tywydd yn ffafriol, edrychwch ar dudalen flaen gwefan yr Ofalaeth neu cysylltwch â Mair i wybod fydd y daith ymlaen y tro hwn ai peidio!! Croeso i bawb.</li> </ul>
<b>DYDD SUL, MEDI 3<sup>YDD</sup></b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn <b>Llansannan</b> am 10.00 ac yn <b>Nantglyn</b> am 2.00.</li> <li>Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng <b>Nghefn Berain</b> am 10.00 ac yn <b>Llanfair</b> am 2.00.</li> <li>Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn <b>Saron</b> am 10.00 ac yn <b>Groes</b> am 2.00.</li> </ul>
<b>NOS IAU, MEDI 14<sup>EG</sup></b>	<ul style="list-style-type: none"> <li><b>Cwrdd Chwarter Cyfundeb Gorllewin Dinbych a Fflint</b> yn cyfarfod yn Ffestri Llansannan. Yn dilyn y materion busnes, bydd Rhodri yn rhoi cyflwyniad ar bwysigrwydd y Diwygiad Protestannaidd ar gyfer heddiw.</li> </ul>
<b>NOS FERCHER, MEDI 20<sup>FED</sup></b>	<ul style="list-style-type: none"> <li><b>Is-Bwyllgor Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd</b> yn cyfarfod yng Nghapel Trefnant pryd y cawn gwmni Mrs Carys Davies, Cydlynnydd Rhaglen Dorcas.</li> </ul>

### Rhai o Gyrsiau Haf Coleg y Bala

- Cwrs Ieuencid (i flynyddoedd 7 – 10):** Gorffennaf 31-Awst 4
- Anhrefn Awst (i blant 8-12 oed):** Awst 14-17
- Souled Out (15+):** Awst 19-24

Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynd ar un o'r cyrsiau, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwys Bro Aled. Mae angen llenwi ffurflen i archebu lle, a'i hanfon gyda blaendâl o £10 i Goleg y Bala mor fuan ag sydd bosibl.



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 23<sup>ain</sup> Gorffennaf 2017

Darlleniad y Dydd

Numeri 6: 22-27

(BCND tud.127 / BCN tud.116)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Bore da a chroeso cynnes i bawb ohonoch sydd ym Mro Aled, a gobeithio y caiff bawb sy'n ymweld â'r Sioe yn Llanefydd wythnos lwyddiannus yno. Wrth i ni ddod at gyfnod o orffwys ar gyfer nifer o weithgareddau'r ofalaeth dros yr haf, diolchwn fod cynhaliaeth yr Arglwydd i'w bobl yn gyson, ac y gallwn ddibynnu arno am ras a chariad ym mhob sefyllfa trwy'r Arglwydd Iesu Grist. Gweddiwn am fendith Duw ar oedfaon y dydd fel y cyflwynwn holl weithgareddau'r haf iddo, yn arbennig felly'r holl gyrsiau plant a phobl ifanc a gynhelir ar draws y wlad.

Pan glywch y gair bendith, be ddaw i'ch meddwl? Y weddi arferol ar ddiwedd gwasanaeth Cristnogol, gofyn bendith cyn bwyta, neu'r hyn a ddywed rhai pobl ar ôl i chi disian?! Yn y Beibl mae'n air sy'n codi'n aml oherwydd ei fod yn disgrifio'r cyflwr o les a daioni a ddaw i bobl trwy haelioni'r Arglwydd Dduw. Y gwrthwyneb i fendith yw mellith ac fe roddir rhybuddion cyson trwy'r Hen Destament fod bendith yn dod o gadw at y cyfamod a wnaeth Duw â'i bobl, a mellith yn sgil torri'r cyfamod a throi cefn ar y Duw graslon a'u hachubodd. Yn ein darlleniad ar y cyd heddiw, cawn glywed un o'r bendithion Beiblaidd cyfarwydd hynny a gaiff eu hadrodd mewn nifer o wasanaethau Cristnogol arbennig. Boed mewn bedydd, priodas neu wrth neilltuo rhywun i waith arbennig o fewn yr eglwys, adroddir y fendith o Numeri 6 fel arwydd o'n dyhead i weld Duw yn gweithredu er lles ei bobl.

Mae'r weddi hon yr oedd yr offeiriaid i'w dweud yn atgyfnerthu un o wirioneddau mwyaf rhyfeddol yr holl Feibl – fod y Duw sy'n greawdwr â bwriadau daionus ar gyfer ei bobl er nad ydynt yn haeddu dim o hynny oherwydd eu gwrthryfel. Cofiwch mai'r Arglwydd ei hun sy'n gorchymyn Moses i sicrhau fod y fendith hon i gael ei hadrodd, nid pobl yn ceisio gwneud i'w hunain deimlo'n well! Cyfeiria'r fendith mewn termau Iddewig at yr Arglwydd yn gwenu'n garedig ac yn bod yn dda hefo'i bobl (beibl.net). Sonnir am amddiffyn a Duw yn dangos trugaredd gan roi heddwch a threfn i'w greadigaeth. Wrth i ni glywed y geiriau hyn dylem sylweddoli sut y mae bendith Duw wedi dod atom ni yn ei Fab, Iesu Grist. Felly os ydym am ystyried ydw i yn cael fy mendithio gan Dduw, rhaid gofyn i ddechrau, ydw i wedi rhoi fy ffydd yn Iesu Grist? Os ydym, mae geiriau Iesu ei hun yn dweud ein bod wedi'n bendithio'n fawr, neu'n wyn ein byd hyd yn oed os cawn ein herlid a'n sarhau. (Mathew 5:11) Diolchwn i Dduw am ei holl ddaioni tuag atom, a gofynnwn am gymorth ei Ysbryd i fwynhau'r cyfan o'i fendithion sy'n eiddo i ni yng Nghrist.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Rhodri

**SYLWER**

Cyhoeddir y rhifyn nesaf o Llais Bro Aled ar Fedi'r 3<sup>ydd</sup> (cyhoeddiadau i'w hanfon erbyn Awst 30<sup>ain</sup>, os gwelwch yn dda. Os cyfyd unrhyw faterion bugeiliol dros yr haf, plis cysylltwch â Rhodri neu Mair.

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 23<sup>ain</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.
- Sul nesaf – 30<sup>ain</sup> ➤ Ni chynhelir **Oedfa'r Fro** ond yn hytrach, bwriadwn ymuno hefo'r gynulleidfa yng Nghapel Caersalem, Caernarfon mewn oedfa am 5.30 dan arweiniad Mr Arwel Jones sy'n un o arweinyddion yr eglwys. Mae Capel Caersalem wedi ei weddnewid yn ddiweddar ac wedi ei leoli ar Stryd Garnon, Caernarfon LL55 2RB. (Holwch Mair ymlaen llaw i gael map a chyfarwyddiadau o ran parcio.) Croeso i bawb! Os oes unrhyw un eisiau lifft neu os oes gennych chi le i roi lifft i rywun arall, plis gadewch i Mair wybod.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 23<sup>ain</sup> ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 30<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00.

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 23<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa fedydd yn Llansannan am 10.00 pryd y bydd Eryl ac Elliw Williams yn cyflwyno Rhys Glyn a Llio Glyn i gael eu bedyddio. Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Sul nesaf – 30<sup>ain</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 ac yn Nantglyn am 2.00. Ni fydd Ysgol Sul heddiw.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 23<sup>ain</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf – 30<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 23<sup>ain</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 30<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Groes am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00. Bydd Oedfa Thema yn Henllan am 10.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 23<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd am 10.00. Cyfarfod Gweddi fydd yng Nghefn Berain hefyd am 10.00 gyda'r Ysgol Sul yn cydreddeg.
- Sul nesaf – 30<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00.

### Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Megan Evans (Llansannan) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd ers rhai dyddiau, a hefyd John H. Williams (Llanefydd) sy'n parhau i gael gofal yn yr Inffirmari. Cafodd Henry Ames (Groes) lawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd yn ystod yr wythnos hefyd, ond mae'n dda deall ei fod adref o'r ysbyty erbyn hyn. Mae eraill sydd heb fod cystal eu hiechyd ac eraill yn gwella yn dilyn anffawd, llawdriniaeth neu gyfnod o salwch. Parhawn i gofio am bawb ohonynt ac am y rhai hynny sy'n galaru am anwyliaid. Cyflwynwn hwy oll i ofal Duw, gan ofyn iddo gysgodi drostynt a thros eu hanwyliaid yr un modd. Hyderwn y byddant oll yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.
- Llongyfarchiadau i Aled a Tanya Owen (Llansannan) ar enedigaeth merch – Mari Luned, chwaer fach i Elin, Megan a Cadi. Diolchwn i Dduw am y rhodd arbennig yma eto, a chyflwynwn y teulu i'w ofal.
- Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i John H. Williams (Llanefydd) fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed ar Awst 5ed, a hefyd i Elena Owen (Llanefydd) fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ar Awst 22ain. Diolchwn i Dduw amdanynt, am eu gwaith a'u gwasanaeth, a dymunwn fendithion lu iddynt eto fyth i'r dyfodol.
- Llongyfarchiadau hefyd i Trefor A. Roberts (Llansannan) sydd wedi rhoi bron i 50 mlynedd o wasanaeth yn gweithio ar ffermydd yn yr ardal ac a fydd yn cael ei anrhydeddu yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanellwedd eleni. Bydd yn derbyn Medal am hir wasanaeth i'r gymdeithas amaethyddol.
- Llongyfarchiadau calonnog hefyd i Anwen Williams (Peniel) fydd yn cael ei anrhydeddu gan yr Orsedd ac yn derbyn Y Wisg Werdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Môn eleni am roi cyfraniad oes i'w hardal, ei hiaith a'i chenedl.

### Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291  
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 582644 📱 07849 591163  
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

### Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.